# Rheoli porfeydd ar gyfer ceffylau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli porfeydd ar gyfer ceffylau.

Dylech fod yn gallu asesu ardal er mwyn dadansoddi ei photensial i ddarparu porfeydd addas, a datblygu strategaeth ar gyfer cynnal a gwella pori.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi sicrhau eich diogelwch eich hun ac eraill, a lles ceffylau, yr holl amser.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. asesu porfeydd ar gyfer eu haddasrwydd ar gyfer ceffylau pori
2. adnabod noddweddion fydd yn cyfyngu potensial y porfeydd ar gyfer ceffylau pori
3. adnabod nodweddion sydd â gofynion rheoli penodol
4. cynllunio strategaeth i sefydlu a rheoli pori addas sy'n ystyried yr holl ffactorau perthnasol
5. cadarnhau bod strwythur y pridd yn ddigonol a chymryd camau unioni priodol os oes angen
6. sicrhau bod rhychwant y porfeydd yn ddigonol ac ail-hadu fel bo angen
7. sicrhau bod dyluniad a chynllun y porfeydd yn addas ar gyfer y math hwnnw o geffyl
8. sicrhau bod lloches, mynediad, ffiniau a gwasanaethau yn ddigonol a chymryd camau priodol fel bo angen
9. sicrhau bod y gwaith o gynnal y porfeydd yn cael ei wneud yn gywir ac mewn ffordd sy'n cyflawni ei ddiben
10. monitro'r porfeydd yn effeithiol er mwyn sicrhau bod safonau a gofynion diogelwch wedi cael eu cyflawni
11. lle bo angen, cael cyngor technegol priodol yn ymwneud â gweithredu addas i leihau effeithiau plâu clefydau ac anhwylderau
12. sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw a'u storio, yn unol â gofynion deddfwriaeth berthnasol a'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo
13. asesu peryglon a rheoli'r perygl i geffylau, i chi eich hun ac eraill mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y math o borfeydd sydd fwyaf priodol ar gyfer y math o geffyl
2. pa nodweddion y dylech fod yn ymwybodol ohonynt a allai effeithio ar addasrwydd y porfeydd naill ai'n barhaol, ar gyfer stoc penodol neu'n dymhorol
3. yr effaith y bydd defnydd blaenorol o'r safle, cyflwr y pridd, strwythurau presennol a gwasanaethau a'r tywydd yn eu cael ar y porfeydd
4. cyflwr y tir sy'n ofynnol ar gyfer plannu effeithiol
5. gofynion y safle ar gyfer draenio
6. cyfraddau pori a phori cylchdroadol a'u heffaith ar ansawdd porfeydd
7. y dulliau o amddiffyn y porfeydd rhag dirywiad ffisegol
8. y mathau o faeth y gellir eu defnyddio, a chyfyngiadau eich cyfrifoldeb mewn perthynas ag ymdrin â maethynnau
9. effaith amgylcheddol posibl gweithgareddau a sut y gellir lleihau'r rhain
10. y cyfyngiadau ar y defnydd o dir a'r rheoliadau cynllunio
11. gweithgareddau y gellir eu gwneud i gynnal y safle a diben y gweithgareddau
12. y berthynas rhwng gofynion cynhyrchu a'r angen i fonitro'r porfeydd
13. ffynonellau cyngor technegol yn ymwneud â'r camau addas i leihau effeithiau plâu, clefydau ac anhwylderau
14. pwysigrwydd sefydlu a chadw cofnodion
15. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff rhain eu rheoli
16. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

Rheoli porfeydd ar gyfer ceffylau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq409 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; pori; rheolaeth |